Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

National Assembly for Wales
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Lesley Griffiths AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig

24 Medi 2018

Annwyl Lesley,

Bil Amaethyddiaeth y DU

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yr wythnos diwethaf, trafododd yr aelodau eich datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 12 Medi 2018 yn ymwneud â Chyflwyno Bil Amaethyddiaeth y DU. Trafododd yr Aelodau hefyd y datganiad ar y cyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Medi 2018 yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am hynt y Fframwaith Amaethyddol.

Rydym wedi nodi y bydd Gweinidogion Cymru, drwy Fil y DU, yn cael pwerau dirprwyedig sylweddol mewn nifer o feysydd arwyddocaol. Mae'r meysydd hyn yn cynnwys pwerau ariannol newydd ar gyfer cynlluniau amaethyddol yn y dyfodol, gosod safonau marchnata, cynorthwyo cymunedau gwledig, ac addasu cyfraith yr UE a dargedwir yn ymwneud â Chynllun Taliad Sylfaenol y PAC.

Rydym hefyd wedi nodi y bydd Bil y DU yn rhoi pwerau eang i Weinidogion Cymru roi cymorth ariannol i'r diwydiant amaethyddol yng Nghymru heb orfod cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol a allai fod yn destun gwaith craffu llawn gan y Cynulliad Cenedlaethol. Wrth dynnu sylw at y pwynt hwn, rydym yn cydnabod y bydd y Cynulliad yn cael cyfle, er mai cyfle cyfyngedig fydd hwn, i drafod Bil Amaethyddiaeth y DU fel rhan o'r broses cydsyniad deddfwriaethol.

Er y bydd nifer o'r pwerau hyn yn golygu y bydd is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Fil Amaethyddiaeth y DU yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn y Cynulliad Cenedlaethol, rydym wedi nodi y bydd Bil y DU, fel y'i drafftiwyd, yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno is-ddeddfwriaeth gan ddefnyddio'r weithdrefn negyddol mewn nifer o feysydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys addasu deddfwriaeth sy'n llywodraethu cynllun y taliad sylfaenol, a newid Rheoliad yr UE ar ariannu, rheoli a monitro'r polisi amaethyddol cyffredin. Yn y cyswllt hwn, byddem yn ddiolchgar pe baech yn esbonio'ch rhesymau dros ofyn i Lywodraeth y DU gynnwys pwerau o'r fath yn y Bil.

Nodwyd ymhellach nad ydych yn bwriadu cyflwyno rheoliadau (os daw Bil yr UE i rym) nes y bydd proses datblygu polisi Llywodraeth Cymru wedi dod i ben. Yn eich datganiad, rydych wedi ailadrodd yr ymrwymiad yn "Brexit a'n tir" i gyflwyno papur gwyn yn nhymor y gwanwyn 2019. Fel y Pwyllgor sy'n gyfrifol am graffu ar ddeddfwriaeth ddirprwyedig yn y Cynulliad Cenedlaethol, byddwn yn ddiolchgar pe baech yn rhoi gwybod i ni am yr amserlenni ar gyfer cyflwyno'r rheoliadau hyn.

Mae eich datganiad ysgrifenedig chi a'r datganiad ar y cyd yn datgan bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o'r farn y bydd y rhan fwyaf o'r fframwaith amaethyddol yn y dyfodol yn cael ei reoli drwy waith anneddfwriaethol, rhynglywodraethol. Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymhelaethu ac esbonio pam, a rhoi manylion yr ychydig feysydd hynny y credwch y bydd angen eu seilio ar ddeddfwriaeth.

Fe wyddoch, o bosibl, fod y Pwyllgor hwn wrthi'n cwblhau cytundeb ysgrifenedig â Llywodraeth Cymru (dan arweiniad Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid) a fydd yn cynrychioli'r safbwynt y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru wedi cytuno arno o ran y wybodaeth y bydd Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i'r Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â'i chyfranogiad mewn cyfarfodydd, concordatiau, cytundebau a memorandwm dealltwriaeth rhynglywodraethol. Felly, byddem hefyd yn ddiolchgar pe baech yn rhoi gwybod inni am unrhyw gytundebau rhynglywodraethol sy'n cael eu trafod ar hyn o bryd mewn perthynas ag amaethyddiaeth.

Yn olaf, rydym yn nodi eich bod yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i ddatrys rhai materion sy'n parhau i beri pryder (sef darpariaethau sy'n ymwneud â Chytundeb Sefydliad Masnach y Byd (WTO) ar Amaethyddiaeth a'r Ardoll Cig Coch) cyn cyflwyno cyngor i'r Cynulliad ar gydsyniad deddfwriaethol. Edrychwn ymlaen at drafod unrhyw Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil DU hwn pan gaiff Memorandwm o'r fath ei osod gerbron y Cynulliad.

Mae Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig wedi cael copi o'r llythyr hwn.

Yn gywir,

Mick Antoniw
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English